

Rhan 1

Perfformiad Cwmnïau Dŵr Unigol yn 2001

- **Adran ar bob un o'r 4 cwmni dŵr, yn disgrifio'u perfformiad dros y flwyddyn ac yn dangos i ba raddau y gwnaethon nhw gydymffurfio ag anghenion Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 1989 a'i holl newidiadau.**

Cyffredinol

- ☐ Mae'r adran ar bob un cwmni dŵr yn cynnwys y canlynol, lle bo'n briodol:
 - Datganiad cyffredinol am ansawdd dŵr yn 2001
 - Gwybodaeth am y cwmni
 - Ansawdd dŵr yn y Parthau Cyflenwi Dŵr, y Gweithfeydd Trin Dŵr a'r Cronfeydd
 - Gwasanaeth
 - Arolygiad ac Archwiliad Cwmni
 - Digwyddiadau
 - Erlyniadau (os o gwbl)
 - Cynlluniau Gwelliant a ddarparwyd gan y Cwmni
 - Gweithredu Gorfodaeth

Cymhariaeth Ansawdd Dŵr

- ☐ Mae'r wybodaeth a geir am ansawdd y dŵr o fewn ardal pob un o'r cwmnïau yn dangos i ba raddau y gwnaeth y cwmni hwnnw gydymffurfio neu fethu cydymffurfio ag anghenion y Rheoliadau Ansawdd Dŵr. Ni ddylid defnyddio'r wybodaeth er mwyn gwneud cymariaethau rhwng ansawdd dŵr gwahanol ardaloedd na chymariaethau am effeithiolrwydd gwahanol gwmnïau.
- ☐ Mae ansawdd dŵr yfed yn amrywio o fewn a rhwng ardaloedd pob un o'r cwmnïau, ac mae'n dibynnu ar natur ffynhonell y dŵr yn ogystal â'r prosesau trin a ddefnyddir a chyflwr y system ddsbarthu. Bydd dŵr o dwll turio mewn dyfrhaen sialc er enghraifft fel arfer o ansawdd microbiolegol gwell na dŵr o sawl ffynhonnell arall. Yn ogystal, dylid nodi ar gyfer pob paramedr, po fwy'r nifer o samplau a gymerir y mwyaf tebygol yw hi y gwelwn achosion o dor-safon.
- ☐ Nid yw hi'n wir i ddweud na ellir gwneud rhai cymariaethau arwyddocaol rhwng perfformiad gwahanol gwmnïau dŵr. Mae'r Arolygiaeth wedi datblygu dulliau ystadegol ar gyfer categoriedd cwmnïau dŵr ar sail ansawdd y dŵr a gyflenwir ac ar sail effeithiolrwydd rheoli triniaeth a dosbarthiad. Mae'r canlyniadau a gafwyd trwy ddefnyddio'r dulliau yma wedi eu cyflwyno yn Rhan 1 yr Adroddiad hwn.

Ansawdd Microbiolegol Dŵr

- ❑ Nid yw darganfod coliformau mewn sampl yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd y cyflenwad dŵr yn achosi salwch ond mae'n arwydd o ddifwytiant posib a rhaid cynnal archwiliad yn syth bin. Mae'r Rheoliadau yn gofyn am gydymffurfiaeth 100% gyda'r safonau ansawdd dŵr am goliformau cyflawn ac ysgarthol mewn gweithfeydd trin dŵr ac am goliformau ysgarthol mewn cronfeydd gwasanaeth ac mewn parthau. Er mwyn cydymffurfio'n llwyr, ni chaniateir mwy na 5% o samplau sy'n cynnwys coliformau cyflawn mewn un blwyddyn o gronfeydd gwasanaeth na pharthau. Gall methiant olygu gweithredu gorfodaeth oni bai fod y cwmni wedi cymryd camau i adfer y sefyllfa a sicrhau na fydd yn medru digwydd eto.

Tor-Safonau

- ❑ Nid yw cyfeiriad at bamedrau a fethodd gyrraedd y safon mewn un neu fwy o samplau yn golygu bod iechyd y defnyddiwr wedi bod mewn perygl. Dim ond rhai o'r pamedrau sy'n arwyddocaol o ran iechyd, ac fel rheol gosodir y safonau diogelwch yn ddigon isel. Mae arwyddocad esthetig i'r pamedrau eraill, a safonau'n cael eu gosod dipyn yn is na'r lefel lle bydd dŵr yn cael ei ystyried yn annerbyniol i'r defnyddiwr. Ni fyddai torri'r safonau hyn yn golygu nad yw'r dŵr yn ffit i'w yfed.
- ❑ Fodd bynnag, mae tor-safon, hyd yn oed mewn un paramedr ac mewn un sampl yn unig allan o'r nifer helaeth a gymerir o bob parth cyflenwi dŵr dros y flwyddyn, yn arwyddocaol oherwydd ni ellir ystyried y dŵr a gyflenwyd ar yr un adeg â'r sampl yn ddŵr iach. O ystyried hyn ynghyd â chanlyniadau eraill, gall olygu y bydd rhaid gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau uchel a nodir yn y Rheoliadau.

Ystyried Gweithredu Gorfodaeth

- ❑ Am 2001, mae'r Arolygiaeth wedi ystyried tor-safon am un paramedr (nad yw'n ficrobiolegol) ar un achlysur mewn parth cyflenwi dŵr fel rhywbeth dibwys, os oes deg neu fwy o samplau wedi eu cymryd yn y parth hwnnw, neu, os oes llai na deg sampl wedi ei gymryd mae'n rhaid sicrhau na chafwyd sefyllfa debyg yn y flwyddyn 2000. Mewn achosion eraill, mae'r Arolygiaeth wedi cymryd nifer y dyfarniadau a difrifoldeb y tor-safon i ystyriaeth cyn penderfynu os oedden nhw'n ddibwys ai peidio.
- ❑ Mewn unrhyw achos na ystyrir yn ddibwys mae'r Arolygiaeth yn ystyried gorfodaeth, onibai bod y cwmni wedi cymryd camau i adfer y sefyllfa a sicrhau na fydd yn medru digwydd eto neu os yw'r Arolygiaeth yn barnu ei bod hi'n anhebygol i'r sefyllfa godi eto. Ystyrir torri safon coliform mewn tap defnyddiwr yn ddibwys hefyd os all y cwmni ddangos y tu hwnt i amheuaeth resymol, fod hyn wedi digwydd oherwydd cyflwr plymwaith neu dap y defnyddiwr lle cafwyd y samplau.

Tabl Safonau Ansawdd a Rhestr Termau

- ❑ Fel cymorth i ddeall yr adrannau ar y cwmnïau, gellir dod o hyd i ddiffiniadau am bob un o'r pamedrau unigol a nifer o'r termau gwyddonol a ddefnyddir yn y Tabl Safonau Ansawdd canlynol neu yn y Rhestr Termau yn Atodiadau'r Adroddiad hwn. Mae'r diffiniadau yma'n berthnasol i'r rheoliadau cyfredol. Gweler Pennod J ar Reoliadau Newydd a Chynlluniau Gwaith Cysylltiedig am newidiadau fydd yn cael eu cyflwyno yn y rheoliadau newydd.

Sylwedd Paramedrau microbiolegol	Disgrifiad	Safon Yr hyn a ganiateir
Coliformau ysgarthol, streptococci ysgarthol, <i>Clostridium</i> <i>perfringens</i>	Mae coliformau ysgarthol, streptococci ysgarthol a <i>Clostridium perfringens</i> yn bresennol ym mherfedd pob anifail gwaed cynnes. Mae eu hól mewn dŵr yn arwydd o'r angen am weithredu cyflym er mwyn dileu ffynhonnell y llygredd ysgarthol. Cymerir samplau a gwneir profion am bob un o'r organeddau. Rheolir yr organeddau hyn trwy ddiheintio'r dŵr.	0 i bob 100ml
Coliformau cyflawn	Mae organeddau'r grŵp coliform wedi eu dosbarthu'n eang yn yr amgylchedd, trwy weithgaredd dyn ac anifail a sylwedd llysiuol er enghraifft. Mae eu hól yn y cyflenwad dŵr yn arwydd o'r angen am archwiliad i ffynhonnell y difwytiant. Rheolir nifer y coliformau trwy ddiheintio'r dŵr.	0 i bob 100ml
Sylweddau Paramedrau Cemegol	Disgrifiad	Safon Yr hyn a ganiateir
Alcalinedd	Mae crynhoad y paramedr hwn yn arwydd o galedwch naturiol a pH y dŵr.	Dim safon
Alwminiwm	Mae alwminiwm yn bodoli'n naturiol mewn rhai dyfroedd ffynhonnell. Tynnir yr alwminiwm yma o'r dŵr yn ystod y prosesau trin dŵr (ceulad a hidlad). Gellir defnyddio sylffad Alwminiwm fel cemegyn trin dŵr i gael gwared ar gymylogrwydd.	200 µg/l
Amoniwm	Mae mymryn bach o halen Amoniwm yn bodoli'n naturiol yn y rhan fwyaf o ffynonellau dŵr. Maent yn dadelfennu yn ystod diheintiad.	0.5 mg/l
Antimoni	Mae Antimoni'n wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr. Gellir gweld ychydig olion ohono mewn dŵr yfed yn deillio o ffitiadau pres a sodr. Nid yw hyn yn beryglus i iechyd.	10 µg/l
Arian	Ni welir arian mewn dŵr ffynhonnell ac anaml iawn y'i gwelir mewn dŵr yfed cyhoeddus. Gall gael ei ddefnyddio fel diheintydd ar gyfer cyflenwadau bach preifat.	10 µg/l
Arsenig	Mae ychydig bach o arsenig i'w ganfod yn naturiol mewn nifer bychan iawn o ffynonellau daearddŵr. Mae Arsenig yn wenwynig, a phan yn bresennol fe'i gwaredir trwy brosesau trin dŵr arbenigol.	50 µg/l
Bariwm	Mae mymryn bach o Bariwm yn bodoli'n naturiol mewn rhai ffynonellau dŵr. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol yn y dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	1000 µg/l
Blas ac arogl ansoddol	Mae blas ac arogl yn bodoli'n naturiol, yn enwedig mewn ffynonellau dŵr wyneb yn ystod yr haf. Mae profion yn gallu amlygu unrhyw botensial o flas ac arogl. Gwaredir yr hyn sy'n achosi'r blas a'r arogl yn ystod y broses drin dŵr. (osôn neu carbon egnïoledig).	Dim safon

Sylweddau Paramedrau Cemegol	Disgrifiad	Safon Yr hyn a ganiateir
Blas ac arogl meintiol	Mae dull ffurfiol i'w gael o fesur blas ac arogl dŵr mewn labordy. Cynhelir profion unigol a gwaredir unrhyw ddiffygion yn ystod y broses trin dŵr, fel y'i disgrifir uchod.	Rhif gwanhad o 3 ar 25 °C
Boron	Daw Boron mewn ffynonellau dŵr o waddodion fformiwleiddiadau glanhaol sy'n bresennol mewn carthffrydiau wedi eu trin. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol yn y dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	2000 µg/l
Cadmiwm	Mae Cadmiwm yn wenwynig ac fe ellir gweld ychydig bach iawn ohono mewn nifer fach o ffynhonellau daearddŵr. Os yn bresennol, fe'i gwaredir trwy brosesau trin dŵr arbenigol.	5 µg/l
Caledwch	Mae hwn yn cynrychioli'r crynhoad o galsiwm a magnesiwm naturiol sy'n bodoli yn y dŵr ffynhonnell. Gall dŵr caled achosi cen mewn tegellau a systemau dŵr poeth. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr yn achosi unrhyw berygl i iechyd.	5 µg/l
Calsiwm	Mae Calsiwm yn bodoli'n naturiol ym mhob ffynhonnell ddŵr ac ynghyd â Magnesiwm mae'n gyfrifol am ddŵr caled, sy'n achosi cen mewn tegellau a systemau dŵr poeth. Nid yw'r crynadau mewn dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	250 mg/l
Carbon Organig Cyflawn (TOC)	Mae TOC yn cynrychioli'r swm cyflawn o fater organig sy'n bresennol yn y dŵr. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr yn achosi unrhyw berygl i iechyd.	Dim cynnydd arwyddocaol
Clorid	Gyda sodiwm, mae clorid i'w weld yn naturiol fel halen gwan iawn ym mhob ffynhonnell ddŵr ac ni cheir gwared ohono wrth drin dŵr. Nid yw'r crynadau mewn dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	400 mg/l
Clorin	Defnyddir nwy clorin fel diheintydd wrth drin dŵr. Mae'n dinistrio bacteria sy'n deillio o wastraff anifail a charthffrydiau.	Dim safon
Copr	Mae olion o gopr, nad ydynt o unrhyw berygl i iechyd, i'w canfod yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr a gellir gweld crynadau arwyddocaol mewn tapiau defnyddwyr o ganlyniad i bibellau copr. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	3000 µg/l
Cromiwm	Nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr nac mewn dŵr yfed.	50 µg/l
Cymylogrwydd	Mae pob dŵr ffynhonnell yn gymylog o bryd i'w gilydd. Mae cymylogrwydd yn fesur meintiol o hyn a rheolir lefelau trwy brosesau trin.	4 Formazin Unedau Cymylogrwydd
Dargludedd	Mae dargludedd trydanol yn fesur o'r nifer o sylweddau anorganig sydd wedi toddi'n naturiol mewn dŵr ffynhonnell. Fe'i defnyddir i gynorthwyo rheoli triniaeth.	1500 µS/cm

Sylweddau Paramedrau Cemegol	Disgrifiad	Safon Yr hyn a ganiateir
Fflŵorid	Mae olion fflŵorid i'w canfod yn naturiol mewn nifer o ffynonellau dŵr, yn arbennig daearddŵr. Ni waredir fflŵorid yn y broses trin dŵr arferol ac mae rhai cwmnïau dŵr yn ei ychwanegu at y dŵr er mwyn amddiffyn rhag dannedd pwdr. Gweler y wefan am fwy o wybodaeth ynglŷn â fflworideiddio dŵr yfed.	1500 µg/l
Ffosfforws	Mae olion o halen ffosfforws yn bodoli'n naturiol mewn sawl ffynhonnell, a chysylltir crynadau uchel ohono gyda charthffrydiau wedi eu trin a gwrteithwyr amaethyddol. Fel modd o amddiffyn iechyd, defnyddir ffosffadau yn y broses trin dŵr hefyd i leihau'r plwm all ddod o bibellau defnyddwyr. Nid yw'r crynadau mewn dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	2200 µg/l
Gwlychwyr	Mae gwlychwyr mewn ffynonellau dŵr yn deillio o waddodion fformiwleiddiadau glanhaol sy'n bresennol mewn carthffrydiau wedi eu trin. Fe'i gwaredir yn y broses drin dŵr.	200 µg/l
Haearn	Yn bodoli mewn nifer o ffynonellau dŵr. Gwaredir yr haearn hwn yn ystod y broses trin dŵr. Gall haearn mewn cyflenwadau dŵr hefyd ddeillio o rwd yn y pibellau haearn, ond nid yw crynadau ohono yn achosi perygl i iechyd. Defnyddir ffurfiau cyfansawdd o haearn yn y broses trin dŵr er mwyn gwaredu cymylogrwydd.	200 µg/l
Hydrocarbon	Mae hydrocarbonau yn cynnwys petroliwm, olew mwnol a chynnyrch arall y diwydiant petrogemegol. Mewn rhai achosion prin gall daearddŵr gael ei heintio neu gall dreiddio drwy bibellau dŵr plastig. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr o unrhyw berygl i iechyd ond gall achosi blas/arogl.	10 µg/l
Ïon Hydrogen	Gweler pH	
Lliw	Mae lliw yn bodoli'n naturiol mewn dŵr o ffynonellau tir uchel. Gellir cael gwared ar liw yn ystod y prosesau trin dŵr (ceulad a hidlad).	20 mg/l Graddfa Pt/Co
Magnesiwm	Mae Magnesiwm yn bodoli'n naturiol ym mhob ffynhonnell ddŵr ac ynghyd â chalsiwm mae'n gyfrifol am ddŵr caled, sy'n achosi cen mewn tegellau a systemau dŵr poeth. Nid yw'r crynadau mewn dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	50 µg/l
Manganis	Yn bresennol mewn nifer o ffynonellau dŵr ac fe'i gwaredir yn y broses trin dŵr.	50 µg/l
Mercwri	Mae Mercwri yn wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr na dŵr yfed.	1 µg/l
Nicel	Nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr. Gellir dod o hyd i olion mewn dŵr yfed sy'n deillio o haenau amddiffynnol ar dapiau a ffitiadau. Nid yw hyn yn achosi unrhyw berygl i iechyd.	50 µg/l


Sylweddau Paramedrau Cemegol	Disgrifiad	Safon Yr hyn a ganiateir
Nitrad	Yn bodoli'n naturiol ym mhob ffynhonnell ddŵr, er gall y defnydd o gwrteithwyr olygu crynhoad uwch. Lle bo'n angenrheidiol, mae lefelau nitrad yn cael eu lleihau yn ystod y broses trin dŵr (trwy gyfnewidiad ïon neu gymysgu gyda dŵr nitrad isel). Am wybodaeth ar oblygiadau iechyd a mesurau rheoli, gweler y wefan.	50 mg/l
Nitraid	Cynhyrchir olion o nitraid wrth ddefnyddio clorin ac amonia yn y broses ddiheintio. Gellir lleihau lefelau trwy gymryd gofal gyda'r broses ddiheintio. Gweler y wefan am fwy o wybodaeth (o dan 'nitraid').	0.1 mg/l
Ocsigeiddiad	Mae Ocsideiddiad dŵr yn fesur o'i gynnwys organig. Mae hwn yn fesur arall o TOC.	5 mg/l
PAH	Mae Hydrocarbonau Polysyclig Aromatig yn bresennol mewn leininau col-tar, a ddefnyddiwyd i amddiffyn pibellau dŵr cyn 1970. Mae olion o PAH, nad ydynt o unrhyw berygl i iechyd, i'w gweld mewn dŵr tap os yw'r leininau col-tar gwreiddiol yn dal yn bresennol.	0.2 µg/l
Benzo 3,4 pyrene (a PAH)		10 ng/l
PH (ïonau Hydrogen)	Mae gwerth pH neu y crynhoad o ïon hydrogen yn rhoi syniad o asidedd y dŵr. Mae pH7 yn niwtral; mae gwerthoedd is na 7 yn golygu nodweddion asidig a gwerthoedd uwch na 7 yn golygu nodweddion sylfaenol. Gall pH isel achosi pibellau i rydu. Gall alcali nad yw'n beryglus i iechyd gael ei ychwanegu i gyflenwad er mwyn lleihau'r risg o rydu.	5.5–9.5
Plaladdwyr	Mae sawl ffynhonnell ddŵr yn cynnwys olion o waddodion plaladdwyr gwenwynig o ganlyniad i ddefnydd amaethyddol ac anamaethyddol o blaladdwyr ar gnydau ac ar gyfer rheoli chwyn. Lle bo'n angenrheidiol, mae cwmnïau dŵr wedi cyflwyno prosesau trin arbennig i waredu'r plaladdwyr er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd (prosesau osôn a charbon egnïoledig). Gweler y wefan am wybodaeth ar ddileu plaladdwyr.	0.1 µg/l
Plwm	Nid yw plwm i'w weld mewn ffynonellau dŵr fel arfer, ond gall fod yn bresennol yn nhapiau defnyddwyr os oes ganddyn nhw bibellau plwm. Os yw'r cyflenwad dŵr yn tueddu i doddi'r plwm, mae'n rhaid i gwmnïau dŵr amddiffyn iechyd y defnyddiwr a thrin y dŵr er mwyn lleihau dinoethiad.	50 µg/l
Potasiwm	Gellir dod o hyd i hwn yn naturiol mewn pob ffynhonnell ddŵr ac ni waredir potasiwm yn ystod y broses trin dŵr. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr o unrhyw berygl i iechyd.	12 mg/l
Seianid	Mae Seianid yn wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr nac mewn dŵr yfed.	50 µg/l
Seleniwm	Mae Seleniwm yn wenwynig ac nid yw'n bresennol mewn ffynonellau dŵr nac mewn dŵr yfed.	10 µg/l

Sylweddau Paramedrau Cemegol	Disgrifiad	Safon Yr hyn a ganiateir
Sinc	Dim ond mewn cartrefi sydd â phibellau haearn wedi eu galfaneiddio y gwelir crynadau arwyddocaol o sinc yn y dŵr. Mae rhai olion o sinc nad ydynt yn beryglus i iechyd yn medru deillio o sodr.	5000 µg/l
Sodiwm	Gyda clorid, mae sodiwm yn bodoli'n naturiol fel halen gwan iawn ym mhob ffynhonnell ddŵr ac ni waredir hwn yn ystod y broses o drin dŵr. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr yn achosi perygl i iechyd.	150 mg/l
Soledau sychion	Mae hwn yn fesur o'r mwynau naturiol mewn dŵr.	1500 mg/l
Sylffad	Mae hwn yn bodoli'n naturiol ym mhob ffynhonnell ddŵr ac ni waredir sylffad yn y broses o drin dŵr. Nid yw'r crynadau sy'n bresennol mewn dŵr wedi ei feddalu yn achosi perygl i iechyd.	250 mg/l
Tetrachloroethen	Gall y toddyddion hyn fod yn bresennol ar lefel isel mewn daearddŵr o dan ardaloedd diwydiannol. Lle bo'n angenrheidiol, defnyddir triniaethau arbenigol i waredu'r toddyddion o ddŵr yfed er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.	10 µg/l
Tetrachloro- methen		3 µg/l
Trichlorethen		30 µg/l
Trihalomethenau (THMau)	Ffurfir THMau yn ystod y broses ddiheintio trwy adwaith rhwng y clorin a sylweddau organig sy'n bodoli'n naturiol. Rheolir prosesau trin er mwyn lleihau eu cynhyrchiad. Gweler y wefan am wybodaeth ar reoli THMau.	100 µg/l
Tymheredd	Mae tymheredd dŵr wyneb yn amrywio yn ôl y tymor. Nid yw tymheredd daearddŵr yn amrywio cymaint.	25°C

Dee Valley Water Plc

Ansawdd Cyffredinol y Dŵr a gyflenwir gan Dee Valley Water Plc yn 2001

- Cynhaliwyd cyfanswm o 13,033 o brofion gan Dee Valley Water Plc yn 2001.
- O'r profion hyn, roedd 99.88% yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau.



Gwybodaeth am y Cwmni

Y dŵr a gyflenwyd:	73MI/d
Y defnyddwyr a gyflenwyd:	257,100
Ardaloedd Cyflenwi:	Caer, Wrexham, Llangollen ac ardaloedd cyfagos Sir Ddinbych a Sir y Fflint
Cyfansoddiad y dŵr:	96% o afonydd a chronfeydd 4% o dyllau turio a dyfrhaenau
Gweithfeydd Trin Dŵr:	7
Cronfeydd Gwasanaeth:	30
Km o brif bibellau dŵr:	1,953
Parthau Cyflenwi Dŵr:	18

Ansawdd dŵr mewn Parthau Cyflenwi Dŵr, mewn Gweithfeydd Trin Dŵr ac mewn Cronfeydd Gwasanaeth

Parthau cyflenwi dŵr

- Yn gyffredinol, er mwyn bod yn iach, rhaid i ddŵr gydymffurfio gyda'r safonau a nodir yn y Rheoliadau. Cynhaliodd y Cwmni gyfanswm o 7,191 o brofion ar samplau a gymerwyd o'i 18 parth cyflenwi dŵr. Mae'r tabl isod yn cynnwys y paramedrau oedd wedi methu'r safon; roedd pob paramedr arall yn cydymffurfio'n llawn gyda'r safonau. Mae rhestr o'r paramedrau hyn a'u harwyddocad i'w gweld ar ddechrau'r adran hon.
- Mae'r golofn olaf yn nodi nifer o fethiannau mewn parth sydd eisoes dan ymrwymiadu cyfreithiol a roddwyd gan y Cwmni. Roedd yr ymgymeriadau hyn yn galw am gynnal gwaith adfer er mwyn cydymffurfio â safon unigol.

Paramedr	Cyfanswm y samplau a gymerwyd	Samplau heb fod yn diwallu'r safon	Canran	Nifer o fethiannau eisoes wedi'u cynnwys mewn ymrwymiadu
Nitraid	201	8	3.98	0
Haearn	239	1	0.42	0
Manganis	172	3	1.74	2

Gweithfeydd trin dŵr

- ❑ Ni fu unrhyw dorri ar y safonau meicrobiolegol yn un o weithfeydd trin dŵr y Cwmni yn 2001. Nid yw'r gwahaniaethau dros y dair blynedd ddiwethaf yn y nifer o weithfeydd trin dŵr, a'r samplau o weithfeydd dŵr lle y canfuwyd coliformau neu goliformau ysgarthol, yn cael eu hystyried yn arwyddocaol.

Cronfeydd gwasanaeth

- ❑ Ym mhob un o 30 cronfa gwasanaeth y Cwmni, roedd coliformau yn absennol o 95% o leiaf o'r samplau. Ystyriwyd methiant sengl yn y safon ar gyfer coliformau ysgarthol mewn un cronfa gwasanaeth yn ddibwys neu'n annhebygol o ddigwydd eto. Nid yw'r gwahaniaethau yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn y nifer o gronfeydd gwasanaeth, a samplau o gronfeydd gwasanaeth, lle y canfuwyd coliformau neu goliformau ysgarthol, yn cael eu hystyried yn arwyddocaol.

Cryptosporidium

- ❑ Cynhaliodd y Cwmni gyfanswm o 1,108 o brofion ar samplau a gymerwyd o dri safle. Canfuwyd niferoedd isel iawn o öosystau mewn wyth (0.72%) sampl a gymerwyd o ddau safle. Roedd pob prawf ymhell islaw'r safon triniaeth ac ni chafwyd unrhyw achosion cysylltiedig o cryptosporidiosis.

Archwiliad ac Arolwg o'r Cwmni

- ❑ Arolygwyd ac archwiliwyd y Cwmni gan yr Arolygiaeth neu ei ymgynghorwyr penodedig ar sawl achlysur yn 2001. Lle mae hynny'n berthnasol mae crynodeb o'r adroddiadau ar gael yn yr adran 'Busnes a Thechnegol' ar y wefan o dan 'Archwiliad ac Arolwg':

Archwiliad neu Arolwg	Dyddiad
Llwybrau archwilio o bump sampl	Gorffennaf
Archwiliad o un gwaith trin dŵr	Gorffennaf
Archwiliad o weithdrefnau hysbysu digwyddiad	Chwefror
Archwiliad o safleoedd samplu <i>Cryptosporidium</i>	Dyddiadau amrywiol yn ystod y flwyddyn
Adolygu triniaeth toddiant plwm a rheoli rhaglenni gwaith	Hydref
Adolygu cynnydd gyda'r ymgymeriad dosbarthu	Hydref

- ❑ Gwnaethpwyd wyth argymhelliad mewn perthynas â'r gweithredu angenrheidiol i osgoi perygl o dorri dyletswydd rheoliadol. Roedd yr argymhellion hyn yn ymwneud yn bennaf â llwybrau archwilio ac arolygu gweithfeydd trin dŵr.
- ❑ Gwnaethpwyd pedwar argymhelliad ar gyfer gwelliant mewn perthynas â thriniaeth toddiant plwm ar gyfer plwm a'r ymgymeriad dosbarthu.

Digwyddiadau

- ❑ Roedd yr Arolygiaeth yn ystyried un o'r digwyddiadau a hysbyswyd yn ystod 2001 gan y Cwmni fel digwyddiad. Am fanylion pellach ar ddsbarthiad digwyddiadau gweler Pennod C, 'Digwyddiadau yn effeithio ar Ansawdd Dŵr,' yn Rhan 3.
- ❑ Mae'r digwyddiad wedi'i asesu gan yr Arolygiaeth. Byr oedd ei hyd a gweithredodd y Cwmni i adfer y sefyllfa'n briodol. Gwnaethpwyd pump argymhelliad i'r Cwmni ynglŷn â gweithrediadau, samplu a dadansoddi a hysbysu.

Natur y digwyddiad	Nifer y digwyddiadau	Aseiad wedi'i gwblhau gan yr ADY	Ardaloedd a effeithiwyd arnynt
Cyflenwi dŵr â lliw arno	1	Do	Borras (Awst)

Rhaglenni Gwelliant

- ❑ Roedd un rhaglen adfer i'w chwblhau yn ystod 2001, sef gwella triniaeth ar gyfer coliformau yng Ngwaith Trin Dŵr Boughton. Cwblhawd y rhaglen waith hon cyn yr amserlen.
- ❑ Mae'r rhaglen welliant barhaus i'r system ddosbarthu yn datblygu'n foddhaol. Yn ystod 2000 a 2001 adnewyddwyd 40km o brif bibellau dŵr. Mae'n ofynnol i'r Cwmni adnewyddu 76km pellach o brif bibellau dŵr erbyn Medi 2004.
- ❑ Mae'r Cwmni wedi cytuno ar raglenni gwaith i ddiwallu safonau newydd a diwygiedig a nodwyd yn Rheoliadau (Ansawdd Dŵr) Cyflenwad Dŵr 2001, a ddaw i rym ar 25 Rhagfyr 2003. Mae'r rhain yn ymwneud â gwaith sy'n ofynnol i ddiwallu'r safon newydd ar gyfer plwm. Mae'r Arolygiaeth yn monitro cynnydd yng nghyflwyniad y rhaglenni a bu hynny'n foddhaol.

Gweithredu Gorfodol

- ❑ Nid oedd unrhyw weithredu gorfodol ar gyfer y Cwmni wedi'i ystyried o ganlyniad i weithgarwch yr Arolygiaeth yn ystod 2001.

Paramedr	Cyfanswm y samplau a gymerwyd	Samplau heb fod yn diwallu'r safon	Canran	Nifer o fethiannau eisoes wedi'u cynnwys mewn ymrwymadau
Cyfanswm coliformau	8,806	17	0.19	0
Coliformau ysgarthol	8,807	3	0.03	0
Cymylogrwydd	3,353	3	0.09	3
Hydrogen ion	1,359	6	0.44	5
Arogl	1,138	4	0.35	0
Nitraid	1,808	160*	8.85	0
Alwminiwm	1,626	4	0.25	2
Haearn	4,273	52	1.22	46
Manganis	2,185	8	0.37	6
Plwm	1,237	10	0.81	0
PAH	970	35	3.61	29
Trihalomethan	628	29	4.62	7
Atrazine	723	2	0.28	0
Isoproturon	406	3	0.74	3
Mecoprop	386	1	0.26	0
Benso-3,4-pyren	970	3	0.31	0

* Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r methiannau hyn fethu'r safon newydd ar gyfer nitraid fel y nodir yn Rheoliadau (Ansawdd Dŵr) Cyflenwad Dŵr 2001

Gweithfeydd Trin dŵr

- O 104 gwaith trin dŵr y Cwmni, roedd 99 (95%) yn cydymffurfio'n llawn gyda'r safonau perthnasol. Ystyriwyd mai mân fethiannau oedd y methiannau mewn cyfanswm o 5 gwaith trin dŵr. Nid yw'r gwahaniaethau dros y tair blynedd diwethaf yn y nifer o weithfeydd trin dŵr, a'r samplau o weithfeydd dŵr lle y canfuwyd coliformau, yn cael eu hystyried yn arwyddocaol.

Cronfeydd gwasanaeth

- Mewn 557 (99.8%) o 558 cronfa gwasanaeth y Cwmni, roedd coliformau yn absennol o 95% o leiaf o'r samplau. Mae'r gronfa gwasanaeth dan sylw wedi'i diddymu o'r cyflenwad ers hynny. Ystyriwyd methiannau yn y safon ar gyfer coliformau ysgarthol mewn saith cronfa gwasanaeth pellach yn rhai dibwys. Bu gostyngiad sylweddol ers 2000 yn y nifer o gronfeydd gwasanaeth, ac yn y samplau o gronfeydd gwasanaeth, lle y canfuwyd cyfanswm coliformau. Nid yw'r holl wahaniaethau eraill yn cael eu hystyried yn arwyddocaol.

Cryptosporidium

- Cynhaliodd y Cwmni gyfanswm o 7881 o brofion ar samplau a gymerwyd o 25 safle. Canfuwyd niferoedd isel iawn o öosystau mewn 576 (7.3%) sampl a gymerwyd o 18 safle. Roedd pob prawf ymhell islaw'r safon triniaeth ac ni chafwyd unrhyw achosion cysylltiedig o cryptosporidiosis.

Archwiliad ac Arolwg o'r Cwmni

- ❑ Arolygydd ac archwiliwyd y Cwmni gan yr Arolygiaeth neu ei ymgynghorwyr penodedig ar sawl achlysur yn ystod 2001. Lle mae hynny'n berthnasol, mae crynodebau gweithredol ar gael yn adran 'Busnes a Thechnegol' ar y wefan o dan 'Archwiliad ac Arolwg'.

Archwiliad neu Arolwg	Dyddiad
Archwiliad o weithdrefnau hysbysu digwyddiad	Chwefror
Adolygu triniaeth toddiant plwm a rheoli rhaglenni gwaith	Hydref
Adolygu polisïau a gweithdrefnau ar dir wedi'i lygru	Tachwedd
Archwilio gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â Rheoliad 25	Tachwedd
Arolygu un gwaith triniaeth dŵr a dwy gronfa gwasanaeth	Tachwedd
Adolygu cynnydd gydag ymgymeriad system dosbarthu	Tachwedd
Llwybrau archwilio deg sampl	Tachwedd/Rhagfyr
Archwilio pob safle sampl <i>Cryptosporidium</i>	Dyddiadau parhaus yn ystod y flwyddyn

- ❑ Gwnaethpwyd un ar hugain o argymhellion mewn perthynas â'r gweithredu angenrheidiol i osgoi'r perygl o dorri dyletswydd rheoliadol. Roedd yr argymhellion hyn yn bennaf mewn cysylltiad â'r llwybrau archwilio a gweithdrefnau'r Cwmni ar gyfer hysbysu digwyddiad.
- ❑ Gwnaethpwyd pump argymhelliad ar gyfer gwelliannau mewn perthynas ag ymgymeriad dosbarthu a thriniaeth toddiant plwm ar gyfer plwm.

Digwyddiadau

- ❑ Roedd yr Arolygiaeth yn ystyried 15 o'r digwyddiadau a nodwyd yn ystod 2001 gan y Cwmni fel digwyddiadau dŵr yfed. Am fanylion pellach ar ddsbarthiad y digwyddiadau hyn gweler Pennod C, 'Digwyddiadau'n effeithio ar Ansawdd Dŵr', yn Rhan 2.
- ❑ Mae'r Arolygiaeth wedi asesu tri digwyddiad ar ddeg. Byr oedd cyfnod pob digwyddiad ac mae'r Cwmni wedi gweithredu'n briodol i adfer y sefyllfa. Gwnaethpwyd wyth argymhelliad i'r Cwmni yn bennaf ynghylch sampl a hysbysu.
- ❑ Yn ystod y cyfnod adrodd 2001 cwblhawyd asesiad hefyd ar gyfer dau ddigwyddiad a ddigwyddodd yn 2000. Yn ystod yr archwiliad o weithdrefnau hysbysu digwyddiad a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2001, daeth yr Arolygiaeth yn ymwybodol o ddigwyddiad arall a ddigwyddodd ym mis Hydref 2000. Mae hwn hefyd wedi'i asesu ac mae wedi ei gynnwys yn y tabl isod.
- ❑ Mae dau asesiad o ddigwyddiadau o 2001 yn parhau o dan ystyriaeth, yn ogystal â thri o 2000.

Natur y digwyddiad	Nifer y digwyddiadau	Asesiad gan yr ADY wedi'i gwblhau	Ardaloedd wedi'u heffeithio
Cyflenwi dŵr â lliw arno	5	Do	Cwm Rhondda (Ionawr); Tylorstown (Digwyddodd Hydref 2000, hysbyswyd Chwefror 2001); Sir Benfro (Gorffennaf); Hwlfordd (Awst); Treorci (Tachwedd)
Fandaliaeth	3	Do	Cefn Mabli (Awst); Newbridge (Tachwedd); Mount Libanus (Tachwedd)
Problemau Blas ac Arogl	2	Naddo	Henffordd (Mai); Abertawe a Chaerfyrddin (Mai)
Problemau triniaeth	1	Do	Llyswen (Ionawr)
Colli cyflenwad	1	Do	Deiniolen (Ionawr)
Lefelau uchel o THM	1	Do	Llanfairfechan (Medi)
Cyngor rhagofalus i ferwi dŵr	2	Do	Penyffordd (Awst), Sain Nicolas (Hydref)

Erlyniadau

- Cychwynnodd yr Arolygiaeth un erlyniad yn erbyn Dŵr Cymru mewn perthynas â digwyddiad dŵr â lliw arno a ddigwyddodd yn 2000 ac a effeithiodd ar rannau o Ferthyr Tudful. Plediodd y Cwmni'n euog i gyflenwi dŵr oedd yn anaddas ar gyfer ei yfed. Gellir cael rhagor o wybodaeth ym Mhennod C, 'Digwyddiadau yn effeithio ar Ansawdd Dŵr', yn Rhan 2.

Rhaglenni Gwelliant

- Roedd tair rhaglen adfer i'w cwblhau yn ystod 2001; sef gosod triniaeth yng Ngwaith Trin Dŵr Garndolbenmaen i gael gwared o *Cryptosporidium*; gosod triniaeth yng Ngwaith Trin Dŵr Felindre i gael gwared o fanganis a gosod pibell ddŵr crai newydd yng Ngwaith Trin Dŵr Capel Curig i leihau'r perygl o *Cryptosporidium*. Cwblhawyd dwy raglen waith yn ôl yr amserlen. Gohiriwyd y drydedd yng Nghapel Curig o lai na mis oherwydd cyfyngiadau'r Clwy Traed a'r Genau.
- Ar hyn o bryd mae'r Arolygiaeth yn trafod gyda'r Cwmni y cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn ar y rhaglen barhaus i wella'r system ddsbarthu sydd yn rhedeg yn hwyr oherwydd effaith Clwy'r Traed a'r Genau ac sydd felly, tu hwnt i reolaeth y Cwmni. Yn ystod 2000 a 2001 mae 656km o brif bibellau dŵr wedi'u hadnewyddu. Mae'n ofynnol i'r Cwmni adnewyddu 4,131 km o brif bibellau dŵr erbyn mis Mawrth 2010.
- Mae'r Cwmni wedi cytuno ar raglenni gwaith i ddiwallu safonau newydd a diwygiedig a nodwyd yn Rheoliadau (Ansawdd Dŵr) Cyflenwad Dŵr 2001, a ddaw i rym ar 25 Rhagfyr 2003. Mae'r rhain yn ymwneud â trihalomethanau ar ddau safle a bromad ar un safle, yn ogystal â gwaith ychwanegol angenrheidiol i ddiwallu'r safon newydd ar gyfer plwm. Mae'r Arolygiaeth yn monitro cynnydd yng nghyflwyniad y rhaglenni a bu hynny'n foddhaol.

Gweithredu Gorfodol


- Mae'r tabl isod yn nodi'r ardaloedd lle'r oedd yr Arolygiaeth, yn 2001, wedi ystyried gweithredu'n orfodol oherwydd torri rheoliadau, a lle y cyflwynwyd ymgymeriad neu lle y gweithredodd y Cwmni yn briodol.

Paramedr/Ardal	Torri Rheoliad	Lleoliad	Canlyniad
Haearn, manganis, alwminiwm a chymylogrwydd	Rheoliad 3(3)(c)	Parth ardal Tynywaun	I'w gynnwys yn yr ymgymeriad dosbarthu
Arogl	Rheoliad 3(3)(c)	Eithinfynydd	Disgwyl canlyniad

Severn Trent Water Limited (Cymru)

Ansawdd cyffredinol y dŵr a gyflenwyd i rannau o Gymru gan Severn Trent Water Limited yn ystod 2001

- Cynhaliwyd cyfanswm o 8,515 prawf gan Severn Trent Water Limited yn ystod 2001.
- O'r profion hyn, 'roedd 99.92% yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau.



Gwybodaeth am y Cwmni

Y dŵr a gyflenwyd:	18.5MI/d
Y defnyddwyr a gyflenwyd:	52,800
Ardaloedd Cyflenwi:	Mae'r ardal yn ymestyn o Lyn Clywedog yn y gorllewin i ffin Cymru yn Swydd Amwythig i'r dwyrain.
Cyfansoddiad y dŵr:	<1% o afonydd a chronfeydd >99% o dyllau turio a dyfrhaenau
Gweithfeydd Trin Dŵr:	3
Cronfeydd Gwasanaeth:	64
Km o brif bibellau dŵr:	363
Parthau Cyflenwi Dŵr:	4

Ansawdd Dŵr mewn Parthau Cyflenwi Dŵr, Gweithfeydd Trin a Cronfeydd Gwasanaeth

Parthau cyflenwi dŵr

- Er mwyn bod yn iachus, mae'n rhaid i ddŵr gydymffurfio â'r safonau a osodir yn y Rheoliadau. Cynhaliodd y cwmni gyfanswm o 1,105 o brofion ar samplau a gymerwyd o fewn ei bedwar parth cyflenwi dŵr. Dim ond y paramedrau a fethodd gyrraedd y safon a nodir yn y tabl isod; cydymffurfiwyd â phob paramedr arall. Gellir dod o hyd i restr o'r paramedrau hyn a'u harwyddocad ar ddechrau'r adran hon.
- Mae'r golofn olaf yn nodi'r nifer o fethiannau yn y parthau sydd eisoes dan ymrwymiadau cyfreithiol a roddwyd gan y cwmni. 'Roedd yr ymrwymiadau hyn yn galw am gynnal gwaith adfer er mwyn cydymffurfio â safon unigol.

Paramedr	Cyfanswm y samplau a gymerwyd	Samplau heb fod yn diwallu'r safon	Canran	Nifer o fethiannau eisoes wedi'u cynnwys mewn ymrwymiadau
Haearn	44	1	2.27	0

Gweithfeydd trin dŵr

- 'Roedd pob un o dri gwaith trin dŵr y Cwmni'n cydymffurfio â'r safonau perthnasol.

Cronfeydd gwasanaeth

- Ym mhob un (100%) o 64 cronfa wasanaeth y cwmni, 'roedd colifformau yn absennol yn o leiaf 95% o'r samplau. Disgrifwyd methiant i gyrraedd safon colifformau ysgarthol mewn un cronfa wasanaeth fel un dibwys.

Cryptosporidium

- Nid oedd angen monitro rheoliadol am öosystau *Cryptosporidium* yn unrhyw un o dri gwaith trin dŵr y Cwmni yng Nghymru.

Archwiliad ac Arolwg o'r Cwmni

- Archwiliwyd neu arolygwyd y Cwmni gan yr Arolygiaeth neu ei ymgynghorwyr apwyntiedig ar sawl achlysur yn ystod 2001. Lle'n berthnasol, gellir gweld crynodeb o'r adroddiadau yn adran 'Busnes a Thechnegol' y wefan o dan 'Archwiliad ac Arolwg'.

Archwiliad neu Arolwg	Dyddiad
Arolwg o'r gweithdrefnau ar gyfer gweithredu a cynnal a chadw'r rhwydwaith ddsbarthu	Chwefror
Archwiliad o weithdrefnau hysbysu digwyddiadau	Chwefror
Adolygu datblygiad ymgymeriad dosbarthu	Hydref
Archwilio polisïau a gweithdrefnau ar dir wedi ei heintio	Tachwedd
Archwilio gweithdrefnau cydymffurfio i Reoliad 25	Tachwedd
Archwilio'r rhaglen sampl	Tachwedd
Llwybrau archwilio deg sampl	Tachwedd
Archwiliad un gwaith trin dŵr ac un cronfa wasanaeth	Tachwedd

- Gwnaethpwyd pymtheg argymhelliad mewn perthynas â'r gweithredu angenrheidiol er mwyn osgoi'r perygl o dorri dyletswydd rheoliadol. 'Roedd yr argymhellion hyn yn bennaf mewn perthynas â gweithredu a chynnal y system ddsbarthu a'r llwybrau archwilio.
- Gwnaed saith argymhelliad am welliannau mewn perthynas ag ymgymeriad y system ddsbarthu.

Digwyddiadau

- Ni nodwyd un digwyddiad gan y Cwmni yn ystod 2001. Am fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau, gweler pennod C 'Digwyddiadau sy'n effeithio Ansawdd Dŵr', yn Rhan 2.

Rhaglenni Gwelliant

- Nid oedd un rhaglen waith yng Nghymru i'w chwblhau yn ystod 2001.
- Mae'r rhaglen welliant gyfredol ar gyfer y system ddsbarthu wedi bod yn datblygu'n foddhaol.
- Mae gan y Cwmni raglenni gwelliant sy'n cwrdd â'r safonau newydd a'r rhai diwygiedig a gyflwynir yn Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001, a ddaw i rym ar 25 Rhagfyr 2003. Mae'r rhain yn berthnasol i haearn a manganîs mewn un safle yng Nghymru, yn ogystal â gwaith ychwanegol i gyrraedd y safon newydd ar gyfer plwm. Mae gan y Cwmni hefyd raglenni gwaith i leihau perygl öosystau *Cryptosporidium* mewn un safle yng Nghymru. Mae datblygiad y rhaglenni yn cael ei fonitro gan yr Arolygiaeth a hyd yn hyn mae wedi bod yn foddhaol.

Gweithredu Gorfodol

- Ni ystyriwyd gweithredu gorfodol ar gyfer cyflenwadau'r Cwmni i Gymru o ganlyniad i weithgarwch yr Arolygiaeth yn ystod 2001.

Apwyntiad Mewnosodedig

Albion Water Limited

Ansawdd cyffredinol y dŵr a gyflenwyd gan Albion Water Limited yn 2001

- Cynhaliwyd cyfanswm o 490 o brofion gan Albion Water Limited yn 2001.
- O'r rhain, 'roedd 99.80% yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau.

- ☐ Mae apwyntiad mewnosodedig yn galluogi cwmni dŵr i gyflenwi dŵr i gwsmeriaid mewn ardal ddaearyddol benodol y tu allan i'w hardal gyflenwi arferol.
- ☐ Nifer cyfyngedig o apwyntiadau a wnaed hyd yn hyn, a gwnaed y rhan fwyaf o'r rheiny rhwng cwmnïau dŵr sydd eisoes yn bodoli. Cyfeirir at rhain yn yr adrannau perthnasol am y gwahanol gwmnïau.

Gwybodaeth am y Cwmni

Y dŵr a gyflenwyd:	0.083 MI/d
Y defnyddwyr a gyflenwyd:	300
Ardaloedd Cyflenwi:	Parth Shotton
Cyfansoddiad y dŵr:	100% o afonydd a chronfeydd, Cyflenwad oddi wrth Dŵr Cymru Cyfyngedig
Gweithfeydd Trin Dŵr:	Ddim yn berthnasol
Cronfeydd Gwasanaeth:	Ddim yn berthnasol
Km o brif bibellau dŵr:	Ddim yn berthnasol
Parthau Cyflenwi Dŵr:	1

Ansawdd y Dŵr yn y Parthau Cyflenwi Dŵr, mewn Gweithfeydd Trin ac mewn Cronfeydd Gwasanaeth

Parthau cyflenwi dŵr

- ☐ Er mwyn bod yn iachus, mae'n rhaid i ddŵr gydymffurfio â'r safonau a osodir yn y Rheoliadau. Cynhaliodd y cwmni gyfanswm o 490 o brofion ar samplau a gymerwyd o fewn ei barth cyflenwi dŵr. Dim ond y paramedrau a fethodd gyrraedd y safon a nodir yn y tabl isod; cydymffurfiwyd â phob paramedr arall. Gellir dod o hyd i restr o'r paramedrau hyn a'u harwyddocad ar ddechrau'r adran hon.
- ☐ Mae'r golofn olaf yn nodi'r nifer o fethiannau yn y parthau sydd eisoes dan ymrwymiadu cyfreithiol a roddwyd gan y cwmni. 'Roedd yr ymrwymiadu hyn yn galw am gynnal gwaith adfer er mwyn cydymffurfio â safon unigol.

Paramedr	Cyfanswm y samplau a gymerwyd	Samplau heb fod yn diwallu'r safon	Canran	Nifer o fethiannau eisoes wedi'u cynnwys mewn ymrwymiadu
Ïon Hydrogen	8	1	12.5	0

Gweithfeydd trin

- Nid oes gan y Cwmni weithfeydd trin.

Cronfeydd gwasanaeth

- Nid oes gan y Cwmni gronfeydd gwasanaeth.

Archwiliad ac Arolwg o'r Cwmni

- Archwiliwyd neu arolygwyd y Cwmni gan yr Arolygiaeth ar un achlysur yn ystod 2001. Lle'n berthnasol, ceir crynodebau o'r adroddiadau yn adran 'Busnes a Thechnegol' y wefan o dan 'Archwiliad ac Arolwg'.

Archwiliad neu Arolwg	Dyddiad
Llwybrau archwilio tri sampl	Medi

- Gwnaethpwyd tri argymhelliad mewn perthynas â'r gweithredu angenrheidiol er mwyn osgoi'r perygl o dorri dyletswydd rheoliadol.

Digwyddiadau

- Ni nododd y cwmni unrhyw ddigwyddiadau yn ystod 2001.

Rhaglenni Gwelliant

- Nid oes unrhyw raglenni adferol ar waith gan y cwmni.

Gweithredu Gorfodol

- Ni ystyriwyd unrhyw weithredu gorfodol at gyfer y cwmni o ganlyniad i weithgarwch yr Arolygiaeth yn ystod 2001.

Cymhariaethau Ystadegol rhwng Cwmnïau Dŵr

- ❑ Bydd defnyddwyr a sefydliadau yn gofyn yn aml i'r Arolygiaeth sut mae ansawdd dŵr yfed yn amrywio o gwmni dŵr i gwmni dŵr.
- ❑ Mae'r Rheoliadau yn cynnwys 55 paramedr gyda safonau rhifol, rhai yn fwy pwysig na'i gilydd o safbwynt iechyd y cyhoedd ac ystyriaethau esthetig. Hefyd, mae cwmnïau yn amrywio mewn maint gan gyflenwi rhwng 300 a 2.8 miliwn o ddefnyddwyr.
- ❑ Heblaw hynny, mae ansawdd dŵr yfed pob un o'r cwmnïau yn uchel iawn gyda'r canran cyffredinol ar gyfer profion sy'n cydymffurfio â'r safonau yn agos iawn at 100%. Rhaid i gymhariaethau ystyrllon allu canfod gwahaniaethau bach mewn cydymffurfiaeth rhwng cwmnïau sydd yn ystadegol arwyddocaol ac yn rhai na ddigwyddodd trwy siawns.
- ❑ Er mwyn gwneud cymhariaeth ystyrllon, mae'r Arolygiaeth yn cyhoeddi mynegai ansawdd cyffredinol ar gyfer pob cwmni, wedi ei seilio ar 15 paramedr allweddol, a mynegai perfformiad gweithredol wedi ei seilio ar chwech o'r paramedrau allweddol hynny: haearn, manganîs, alwminiwm, cymylogrwydd, colifformau ysgarthol a trihalomethane.
- ❑ Mae'n bwysig nodi bod y canran syml o'r profion sy'n cydymffurfio yn fesur gwahanol i'r mynegeion ansawdd cyffredinol a perfformiad gweithredol. Ni ddylid drysu rhwng y mesurau gwahanol hyn, gan nad yw hi'n bosib eu cymharu'n uniongyrchol.

Mynegai Ansawdd Cyffredinol

- ❑ Mae Ffigwr 1 yn rhestru cwmnïau dŵr mewn trefn ostyngol o ran y mynegai ansawdd cyffredinol am y flwyddyn 2001 mewn tair colofn; yn ystadegol arwyddocaol is na'r cyfartaledd, ddim yn ystadegol arwyddocaol wahanol i'r cyfartaledd; ac yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd. Dylid nodi nad yw hi'n bosib dangos bod mynegeion y cwmnïau dŵr bach sydd â nifer fach o samplau yn ystadegol arwyddocaol wahanol i'r cyfartaledd.

Ffigwr 1 Mynegai Ansawdd Cyffredinol: 2001

Mynegai	Cwmni		
	Yn ystadegol arwyddocaol is na'r cyfartaledd	Ddim yn ystadegol arwyddocaol wahanol i'r cyfartaledd	Yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd
100.00		Albion	
99.92		Dee Valley	
99.94		Cymru a Lloegr	
99.73	Dŵr Cymru		
99.72		Severn Trent	

- ❑ Aseswyd y tueddiadau yn y mynegai ansawdd cyffredinol dros y blynyddoedd rhwng 1996 a 2001 er mwyn penderfynu os oes tuedd gwelliant arwyddocaol, dim tuedd ystadegol arwyddocaol neu duedd arwyddocaol i ddirywio. Mae Ffigwr 2 yn dangos nad oedd un cwmni yn dangos tuedd arwyddocaol i ddirywio, a bod un cwmni, Dŵr Cymru, wedi dangos tuedd gwelliant arwyddocaol yng Nghymru.

Ffigwr 2 Tueddiadau ym Mynegai Ansawdd Cyffredinol 1996 i 2001

Tuedd dirywio ystadegol arwyddocaol	Tuedd gwelliant ystadegol arwyddocaol
–	Dŵr Cymru

Mynegai Perfformiad Gweithredol

- Mae Ffigwr 3 yn rhestru cwmnïau dŵr mewn trefn ostyngol o ran y mynegai perfformiad gweithredol am y flwyddyn 2001 mewn tair colofn fel ag yn y mynegai ar gyfer ansawdd cyffredinol.

Ffigwr 3 Mynegai Perfformiad Gweithredol: 2001

Mynegai	Cwmni		
	Yn ystadegol arwyddocaol is na'r cyfartaledd	Ddim yn ystadegol arwyddocaol wahanol i'r cyfartaledd	Yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd
100.00		Albion	
99.81		Dee Valley	
99.78		Cymru a Lloegr	
99.49	Dŵr Cymru		
99.31		Severn Trent	

- Aseswyd y tueddiadau yn y mynegai perfformiad gweithredol dros y blynyddoedd rhwng 1996 a 2001 er mwyn penderfynu os oes tuedd gwelliant arwyddocaol, dim tuedd ystadegol arwyddocaol neu duedd arwyddocaol i ddirywio. Doedd dim un cwmni yn dangos tuedd arwyddocaol i ddirywio na tuedd gwelliant arwyddocaol yng Nghymru.